DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Dirybudd)

# Pleasure or Pain Productions, Aberdâr

Dyddiad yr Arolygiad: 20 Mawrth 2017

Dyddiad cyhoeddi: 21 Mehefin 2017

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt, er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni i gael rhagor o gymorth.
Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan fyddant yn cael eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Welsh Government**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:**0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Rhif ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk

ISBN Digidol 978-1-4734-9632-3
© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys

1. Introduction .......... 2

2. Context .......... 3

3. Summary .......... 4

4. Findings .......... 5

Quality of patient experience .......... 5

Delivery of safe and effective care .......... 7

Quality of management and leadership .......... 10

5. Next Steps .......... 12

6. Methodology .......... 13

Appendix A .......... 15

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol dros yr holl wasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar:

- Cyfrannu er mwyn gwella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru.
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru, boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu weithiwr
- Cryfhau lleisiau cleifion a'r cyhoedd o ran y ffordd y mae gwasanaethau iechyd yn cael eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol ynglŷn â diogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC ymweliad lle rhoddwyd rhybudd â Pleasure or Pain Productions ar 20 Mawrth 2017.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn yr arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGGCC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n dull o arolygu gwasanaethau annibynnol yn Adran 6.

## 2. Cyd-destun

Mae Pleasure or Pain Productions wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth annibynnol sy'n darparu triniaethau laser Dosbarth 3B/4 yn 26 Stryd Caerdydd, Aberdâr, CF44 7DP. Cofrestrwyd y gwasanaeth am y tro cyntaf ar 9 Gorffennaf 2014.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y gwasanaeth yn eiddo i, ac yn cael ei reoli, gan un person. Roedd gan y rheolwr cofrestredig weithredwr laser hyfforddedig ychwanegol yr oedd yn gallu galw arno pe bai angen ar y busnes. Roedd yr angen i wneud hyn, fodd bynnag, ond wedi digwydd ar un adeg ers cofrestru. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 mlwydd oed:

Laser Eclipse Compact Nd:YAG (532/1064nm), ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Cael gwared ar datŵs
- Pilyn carbon

Laser Eclipse ICE2, ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Cael gwared ar wallt
- Triniaeth acne
- Triniaeth fasgwlaidd
- Triniaeth pigmentiad
- Triniaeth adnewyddu croen

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth bod y gofal yn ddiogel ac yn effeithiol.

Dyma'r hyn wnaethom ganfod bod y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion er mwyn iddynt wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion.
- Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith i sicrhau diogelwch a lles y staff a'r cleifion
- Roedd adborth gan gleifion yn gadarnhaol o ran y gwasanaeth a ddarperir.

Dyma'r hyn rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth ei wella:

- Hyfforddiant ar gyfer y rheolwr cofrestredig o ran diogelu
- Trefniadau ar gyfer sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal ar yr holl staff

Ni chanfuwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

Er nad yw'r gwelliannau uchod a nodwyd wedi arwain at gyhoeddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, disgwylir i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i fynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd gallai methu i wneud hynny arwain at ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Gwybodaeth i gleifion a chysyniad (Safon 9)**

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth. Mae hyn oherwydd bod cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn derbyn triniaeth. Roedd y drafodaeth hon yn cynnwys y risgiau, buddion, a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Dywedwyd wrthym fod yr holl gleifion yn cael prawf croen cyn triniaeth, ac yn derbyn canllawiau gofal yn dilyn triniaeth. Rhoddwyd enghreifftiau i ni o'r wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir hefyd.

Gofynnwyd i gleifion ddarparu cysyniad ysgrifenedig i driniaeth, a gwelsom gofnodion a oedd yn dangos hyn.

Gwelsom fod cleifion yn derbyn ceisiadau i gwblhau ffurflenni hanes meddygol. Roedd diweddariadau neu wiriadau yn cael eu gwirio yn ystod unrhyw apwyntiad dilynol, ac roedd y cofnodion yn cael eu diweddaru yn unol â hynny.

Roedd Pleasure or Pain Productions yn cynnal cofnodion manwl o'r driniaeth a roddwyd i gleifion. Gwelsom enghreifftiau o rai o'r cofnodion hynny a nodi bod gwybodaeth briodol yn cael ei chofnodi. Fodd bynnag, er inni weld bod y cofnodion papur yn cynnwys blwch i nodi nifer y saethiadau (laser) a roddwyd yn ystod triniaeth, nid oedd y wybodaeth hon wedi'i chwblhau yng nghofnodion y cleient. Gwnaethom argymell, felly, bod y rheolwr cofrestredig yn cynnwys gwybodaeth o'r fath yng nghofnodion y cleient yn y dyfodol. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â'r mater hwn fel mater o flaenoriaeth.

Er bod y rheolwr cofrestredig yn cynnal cofnodion cleifion unigol manwl, nid oedd cofrestr driniaeth gyffredinol yn cael ei chynnal. Gwnaethom argymell y dylai'r rheolwr cofrestredig gymryd camau i weithredu hyn a chynnwys yr holl fanylion personol, gan gynnwys nifer y saethiadau laser a roddir ar gyfer pob triniaeth. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig gytuno i gymryd camau i weithredu hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau i weithredu cofrestr driniaeth, gan sicrhau ei bod yn nodi'r wybodaeth berthnasol o ran y driniaeth a ddarperir.***

**Cyfathrebu yn effeithiol (Safon 18)**

Roedd canllaw ar gael i gleifion ei ddarllen a mynd adref gyda hwy; roedd yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaeth yn unol â'r rheoliadau. Canfuom fod datganiad o ddiben ar gael ond roedd angen ei ddiweddaru ychydig i adlewyrchu'r trefniadau newydd a gyflwynwyd i geisio safbwyntiau'r cleifion.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen diweddaru'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau***

***Rhaid darparu copi diwygiedig o'r Datganiad o Ddiben ar gyfer AGGCC.***

**<u>Ymgysylltu a derbyn adborth gan ddinasyddion (Safon 5)</u>**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r gwasanaeth rannu holiaduron AGIC i gael safbwyntiau cleifion ar y gwasanaethau a ddarperir. Roedd un deg wyth o holiaduron cleifion wedi cael eu cwblhau cyn dyddiad yr arolygiad. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

> "*Hapus iawn gyda'r gwasanaeth, mae'r clinig yn berffaith ac mae (y rheolwr cofrestredig) yn broffesiynol iawn ac yn llawn gwybodaeth"*
>
> "Roedd (y rheolwr cofrestredig) yn llawn gwybodaeth wrth iddo esbonio'r broses a'r gwaith papur i mi. *Roeddwn i'n hapus iawn gyda fy nghroen ar ôl un sesiwn yn unig, byddwn i'n argymell y gwasanaeth hwn yn gryf"*
>
> *"Pob tro pan fydda i'n mynychu am sesiwn, rwy'n derbyn gwasanaeth proffesiynol ac rwy'n teimlo yn gyfforddus drwy gydol y broses"*

Yn ddieithriad, cytunodd yr holl gleifion yn gryf â'r datganiadau bod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus, a bod y staff yn gwrtais, yn ofalgar, yn gwrando ac yn rhoi digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd yr holl gleifion bod eu gofal a'u triniaeth yn 'rhagorol'.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn gallu rhoi adborth ar lafar i'r rheolwr cofrestredig yn uniongyrchol, a thrwy wefannau'r cyfryngau cymdeithasol hefyd. Fodd bynnag, ar adeg yr arolygiad hwn, nid oedd gan y gwasanaeth system ffurfiol i gleifion roi adborth o ran y gofal a'r driniaeth a ddarperir. Gwnaethom drafod y mater hwn â'r rheolwr cofrestredig yn ystod ein hymweliad, ac fe sicrhaodd ar unwaith bod cyflenwad o holiaduron bodlonrwydd cleifion yn cael eu gadael wrth y dderbynfa i'w llenwi gan gleifion. Bydd unrhyw wybodaeth/sylwadau a dderbynnir yn cael eu hasesu gan y rheolwr cofrestredig ar sail barhaus yn y dyfodol a bydd camau priodol yn cael eu cymryd, os bydd angen.

## *Darparu gofal diogel ac effeithiol*

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a dyfeisiau meddygol, offer, a systemau diagnostig (Safon 16)**

Roedd y ddau weithredwr laser wedi derbyn hyfforddiant o ran sut i ddefnyddio'r peiriannau laser a gwelsom fod y tystysgrifau yn cadarnhau hyn. Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwr laser arall wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth[1] ym mis Ebrill 2013. Gwnaethom atgoffa'r rheolwr cofrestredig y dylai'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth gael ei gwblhau bob tair blynedd. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â'r mater hwn yn brydlon.

Gwelsom fod gan Pleasure or Pain Productions gontract gydag ymgynghorydd diogelu rhag laserau a gwelsom ddogfennau i ddangos bod yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau wedi cynnal ymweliad rhithwir bob blwyddyn. Gwelsom fod yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau wedi adolygu'r rheolau lleol a oedd yn manylu gweithrediad diogel y peiriant laser ac wedi gwneud asesiad risg amgylcheddol. Gwelsom fod yr asesiadau risg yn cynnwys y lleiafswm o fanylion sydd ei angen. Dywedwyd wrthym fod yr ymgynghorydd diogelu rhag laserau yn cynnal yr asesiad risg o bell drwy ddefnyddio ffotograffau o'r safle a gwybodaeth a roddwyd gan y rheolwr.

Roedd arwydd y tu allan i'r ystafell driniaeth i ddangos pryd roedd y peiriannau laser yn cael eu defnyddio, a bysellbad y tu allan i'r drws, a dim ond y ddau weithredwr laser oedd yn adnabod y cod ar ei gyfer. Roedd hyn er mwyn atal mynediad heb awdurdod i'r ystafell pan oedd y peiriannau yn cael eu defnyddio.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y peiriannau laser yn cael eu diffodd pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, ac roedd yr allweddi'n cael eu tynnu a'u cadw'n ddiogel mewn cabinet dan glo.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a gweithredwyr y peiriannau laser. O'i archwilio, roedd y cyfarpar diogelu llygaid i'w weld mewn cyflwr addas.

Dywedwyd wrthym fod dau beiriant wedi cael eu gwasanaethu a'u graddnodi yn ystod y 12 mis diwethaf, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom waith papur i gadarnhau hyn.

Gwelsom fod protocolau meddygol ar waith a oedd wedi cael eu cyhoeddi gan wneuthurwyr y peiriannau. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod

[1] Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys mewn modd diogel.

diweddariadau i'r protocolau yn cael eu darparu gan y gwneuthurwr ac y byddai newidiadau i weithdrefnau yn cael eu gwneud pe bai angen.

## Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)

Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus. Roedd gan y gwasanaeth bolisi rheoli heintiau ar waith a oedd yn rhoi manylion ar gyfer amserlenni glanhau rheolaidd y gwasanaeth a glanhau offer a mannau triniaeth rhwng cleifion. Gwnaethom argymell bod y rheolwr cofrestredig yn dogfennu, gan nodi'r dyddiad a llofnodi, pryd roedd tasgau dyddiol, wythnosol a misol wedi eu cwblhau fel y disgrifir. Cytunodd rheolwr y practis i wneud hyn.

Roedd contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff clinigol yn ddiogel.

## Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed (Safon 11)

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 mlwydd oed yn unig.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi diogelu ar gyfer staff i'w gyfeirio ato mewn achos o bryder diogelu. Gwelsom fod y polisi yn gryno ac yr oedd angen gwybodaeth ychwanegol arno. Gwnaethom argymell, felly, y dylai'r polisi gael ei ddiweddaru i gynnwys rhagor o fanylion ynglŷn â'r disgrifiad o gamdriniaeth, er mwyn cynorthwyo'r staff i nodi materion diogelu. Gwnaethom roi cyngor y dylai'r rheolwr cofrestredig ddarparu rhagor o fanylder o ran y camau i'w cymryd pe bai pryderon. Nid oed y rheolwr cofrestredig wedi derbyn hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Cytunodd y rheolwr cofrestredig i fynd i'r afael â'r mater hwn.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r rheolwr cofrestredig fynychu hyfforddiant mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed.***

## Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch (Safon 22)

Gwelsom dystiolaeth fod gwiriad diogelwch nwy wedi cael ei gwblhau o fewn y flwyddyn ddiwethaf, i sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel.

Er mwyn sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio, gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal yn ystod y 12 mis diwethaf.

Gwnaethom archwilio rhai o'r trefniadau diogelwch tân. Dangosodd labeli gwasanaethu ar y diffoddwyr tân eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol, ac roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth wedi cynnal un ymarfer tân er mwyn hyfforddi'r staff; fodd bynnag, ni chofnodwyd y

wybodaeth hon. Gwnaethom roi cyngor i'r rheolwr cofrestredig y byddai'n arfer gorau i gadw cofnod o'r holl ymarferion tân a gwblheir yn y dyfodol, ac fe gytunodd i wneud hyn.

Roedd gan y rheolwr cofrestredig fynediad at focs cymorth cyntaf o fewn adran y gwasanaeth a rennir. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig roi gwybod i ni nad oedd gan y gwasanaeth unigolyn a oedd wedi gwneud hyfforddiant mewn cymorth cyntaf. Gwnaethom argymell i'r rheolwr cofrestredig bod cyngor yn cael ei geisio gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch[2] ynghylch yr angen am weithwyr cymorth cyntaf a'r hyfforddiant priodol sydd ei angen.

[2] http://www.hse.gov.uk/firstaid/index.htm

## *Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth*

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd (Safon 1)**

Mae Pleasure or Pain Productions yn cael ei redeg gan y rheolwr cofrestredig sy'n gallu darparu triniaethau laser. Mae'r rheolwr cofrestredig yn gallu galw am gymorth gan weithredwr laser arall, pe bai angen ar y busnes. Dywedwyd wrthym fod hyn ond wedi digwydd un waith ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru.

Gwelsom fod arlwy o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Dywedwyd wrthym fod y polisïau'n cael eu diweddaru'n flynyddol, a gwelsom dudalen fynegai a oedd yn cynnwys dyddiadau adolygu i ddangos hyn.

Gwnaeth y rheolwr cofrestredig ddisgrifio'r trefniadau ar gyfer asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Roedd hyn yn cynnwys holi barn cleifion am y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt. Gwnaethom argymell y dylai unrhyw archwiliadau eraill a gyflawnir a'u canlyniadau gael eu cofrestri'n ffurfiol. Atgoffwyd y rheolwr cofrestredig o ran pwysigrwydd edrych ar y rheoliadau'n gyson fel modd o sicrhau cydymffurfiad parhaus.

**Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)**

Roedd polisi cwyno ar gael ac roedd yn cynnwys digon o wybodaeth i gleifion leisio pryder pe bai angen iddynt wneud hynny. Roedd copi caled o'r polisi yn cael eu harddangos yn yr ystafell driniaeth i'r cleifion ei weld.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd wedi derbyn unrhyw gwynion ffurfiol hyd yn hyn, ond fe wnaeth ddisgrifio sut y byddai'n cofnodi'r wybodaeth yn ffurfiol pe bai'n derbyn cwyn. Dywedwyd wrthym y byddai cwynion ar lafar yn cael eu cofnodi hefyd yng nghofnodion cleifion unigol. Gwnaethom drafod yr angen i gofnodi cwynion ysgrifenedig a llafar yn ffurfiol, os derbynnir rhai, er mwyn gallu rhoi sylw i unrhyw themâu neu broblemau cyffredin a nodir.

**Rheoli cofnodion (Safon 20)**

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel yn y gwasanaeth. Roedd y gwasanaeth yn cadw cofnodion cleifion ar bapur ac yn electronig. Roedd cofnodion papur y cleifion wedi eu storio'n ddiogel mewn cabinet dan glo, ac roedd copi wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael eu cadw er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.

**Recriwtio i'r Gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)**

Nid oeddem yn gallu gweld tystysgrif gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rheolwr cofrestredig na'r gweithredwr laser. Roeddem yn gallu cadarnhau y gwnaed cais ar gyfer gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ym mis Chwefror 2014; fodd bynnag, nid oedd y dystysgrif ar gael. Gwnaethom argymell y dylai'r gwasanaeth gynnal gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl weithredwyr laser.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu bob 3 blynedd ar gyfer yr holl weithredwyr laser.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn eglur sut y bydd y gwelliannau a nodwyd yn Pleasure or Pain Productions yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r camau a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r bwrdd iechyd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei werthuso a'i gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu barhaus.

## 6. Methodoleg

Nod arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yw sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a darganfod sut y mae gwasanaethau yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.[3]

Rydym yn cynnal arolygiadau lle rhoddwyd rhybudd a dirybudd o wasanaethau gofal iechyd annibynnol ac rydym yn eu harolygu ac yn adrodd yn erbyn tair thema:

- **Ansawdd profiad y claf:**
  Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

- **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol:**
  Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

- **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth:**
  Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru).

Rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff (lle bo'n briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau gyda chleifion a pherthnasau (lle bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion

---

[3] Cyhoeddwyd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd yng Nghymru ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd

- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo'n briodol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn yr arolygiad.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r darparwr cofrestredig at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiad trwy gyfrwng hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.[4] Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw welliannau eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnig cipolwg o i ba raddau y mae gwasanaethau'n bodloni safonau a rheoliadau diogelwch ac ansawdd hanfodol ar ddiwrnod yr arolygiad.

---

[4]Yn rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno lle mae diffyg cydymffurfiad â'r rheoliadau yn fwy difrifol ac yn ymwneud â chanlyniadau gwael a methiant systemig. Bydd hyn pan fo canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a phan fo methiannau'n arwain at beryglu hawliau pobl. Mae copi o broses gydymffurfio AGIC ar gael ar gais.

*Atodiad A*

## Cynllun Gwella

## Gwasanaeth:Pleasure or Pain Productions

## Dyddiad yr Arolygiad: 20 Mawrth 2017

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| Tudalen 5 | Mae angen i'r rheolwr cofrestredig roi cofrestr o driniaethau ar waith, gan sicrhau ei bod yn casglu gwybodaeth berthnasol am y driniaeth a ddarparwyd. | Rheoliad 23 | Mae'r gofrestr o driniaethau wedi'i rhoi ar waith ac yn weithredol | Gareth Wills | 24 Mawrth 2017 |
| Tudalen 6 | Mae'n rhaid diweddaru'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau.<br><br>Rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben wedi ei ddiweddaru at AGIC. | Rheoliad 6, Atodlen 1 | Mae'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu proses newydd ar gyfer casglu adborth gan gleifion | Gareth Wills | Diwedd mis Mai 2017 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Gwasanaeth | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| Tudalen 8 | Dylai'r rheolwr cofrestredig fynychu hyfforddiant mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. | Rheoliad 16<br>Safon 11 | Cysylltwyd ag amrywiaeth o ddarparwyr ac yn mynd drwy'r broses o gadarnhau'r cwrs diogelu mwyaf addas ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed | Gareth Wills | Diwedd mis Mai 2017 |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| Tudalen 11 | Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu hadnewyddu bob 3 blynedd ar gyfer yr holl weithredwyr laser. | Rheoliad 21 | Gwnaed cais am dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy AGIC | Gareth Wills | Cais yn mynd rhagddo |

**Cynrychiolydd y Gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):...........Gareth Wills.......................................................................**

**Teitl: ......Rheolwr.......................................................................................**

**Dyddiad:.......25/04/2017..............................................................................**